HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

OPERATION ENCOMPASS
In every force. In every school. For every child.

Annwyl riant/gofalwr,

Mae'n bleser gennym rannu â chi'r newyddion bod ein hysgol wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn prosiect a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref a fydd yn cael ei gynnal ar y cyd rhwng ysgolion a Heddlu Gogledd Cymru.

Mae Ymgyrch Encompass yn fenter genedlaethol i alluogi'r heddlu a maes addysg i rannu gwybodaeth mewn ymdrech i gefnogi plant sydd wedi bod yn dyst i gam-drin domestig. Yn bennaf, ei nod yw tynnu sylw ysgol os yw plentyn yn dod i gysylltiad â cham-drin domestig mor gynnar â phosibl er mwyn galluogi cymorth ar unwaith. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod y gall pob digwyddiad o gam-drin domestig fod yn niweidiol i blant a phobl ifanc.

Bydd dau aelod profiadol o staff, a elwir yn Oedolion Allweddol, wedi'u hyfforddi i'w galluogi i gysylltu â'r heddlu a defnyddio'r wybodaeth a rannwyd. Byddant yn gallu defnyddio gwybodaeth a rannwyd gyda hwy, yn gyfrinachol, er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn darparu ar gyfer anawsterau posibl a brofir gan blant neu eu teuluoedd. Bydd yr Oedolion Allweddol yn cadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol a dim ond yn ei rhannu ar sail yr angen i wybod.

Rydym yn awyddus i gynnig y cymorth gorau posibl i'n holl ddisgyblion ac mae Ymgyrch Encompass wedi'i gydnabod yn genedlaethol ei fod yn fuddiol ac yn gefnogol i bawb sy'n rhan ohono. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar Wefan Encompass - <https://www.operationencompass.org/>

Yn gywir,
Glenda Evans
Pennaeth yr Ysgol